PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol

# Data Myfyrwyr

Cyfnod adrodd

1 Awst 2023 – 31 Gorffennaf 2024



# Cyflwyniad

Mae'r Adroddiad Cydraddoldeb Myfyrwyr Blynyddol hwn yn cyflwyno gwybodaeth monitro cydraddoldeb ar gyfer myfyrwyr Prifysgol Bangor, gan ganolbwyntio ar y nodweddion gwarchodedig canlynol a gwmpesir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010: Oed; Anabledd; Ethnigrwydd neuHil; Crefydd neu gred; Rhyw; Cyfeiriadedd rhywiol; Traws.


Mae’r data’n seiliedig ar y cofnod myfyrwyr a ddychwelir yn flynyddol i HESA (Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch) ac mae’n rhoi cipolwg o broffil amrywiaeth myfyrwyr Prifysgol Bangor a oedd wedi cofrestru ar gwrs o fewn y cyfnod adrodd 1 Awst 2023 – 31 Gorffennaf 2024.

Mae'r adroddiad yn cymharu ffigurau Prifysgol Bangor yn erbyn ystadegau cenedlaethol i ystyried amrywiaeth a chynwysoldeb poblogaethau myfyrwyr yng nghyd-destun ehangach y DU. Mae cyfartaleddau pum mlynedd y sector y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ddata sector diweddaraf sydd ar gael, hyd at flwyddyn academaidd 2022-23. Mae data sector 2023-24 gan HESA wedi’i ohirio eleni ac nid oedd ar gael ar adeg ysgrifennu’r adroddiad hwn.


Paratowyd yr adroddiad hwn gan Adran Strategaeth, Prosiectau a Chynllunio Prifysgol Bangor, ym mis Mawrth 2025.

# Proffil myfyrwyr


Mae'r tudalennau hyn yn rhoi proffil myfyrwyr Prifysgol Bangor ar gyfer y flwyddyn academaidd 2023-24, fel cyd-destun ehangach ar gyfer dadansoddi data amrywiaeth.  Rhennir y boblogaeth myfyrwyr yn ôl lefel astudio, modd astudio, grŵp domisil, a phwnc.





Mae 62% o fyfyrwyr Bangor yn astudio ar lefel israddedig, sydd yn is na chyfartaledd y DU (73%).  Mae niferoedd wedi bod ar duedd ar i lawr dros y cyfnod o bum mlynedd hyd at 2023-24 (-11% pt), sy'n uwch na'r gostyngiad (-5% pt) yn y sector. Mae 32% o fyfyrwyr yn astudio ar lefel ôl-raddedig (a addysgir), sy'n uwch na chyfartaledd y DU o 23%; mae'r myfyrwyr hyn wedi cynyddu 11% pt dros bum mlynedd, gan ragori ar y cynnydd o 6% pt yn y sector.  Mae 6% o fyfyrwyr yn astudio ar lefel ôl-raddedig (Ymchwil), sydd yn uwch na chyfartaledd y DU (4%); mae niferoedd wedi aros yn gymharol gyson ym Mangor ac ar draws y sector DU dros bum mlynedd.




Roedd 83% o fyfyrwyr yn astudio ar gyrsiau amser llawn, ychydig yn uwch na chyfartaledd y DU o 80%. Mae myfyrwyr amser llawn wedi gostwng 7% pt dros bum mlynedd, gyda ffigurau'r DU yn dangos twf o 1% pt.  Mae myfyrwyr sy'n astudio ar gyrsiau rhan-amser yn is na chyfartaledd y DU o 20%; bu cynnydd o 7% pt dros bum mlynedd, gan berfformio'n well na'r gostyngiad sector o 1% pt.




Roedd 73% o fyfyrwyr Bangor yn hanu o'r DU, sydd yn is na chyfartaledd y DU o 78%.  Mae myfyrwyr y DU wedi gostwng o 78% bum mlynedd yn ôl, gyda ffigur cyfartalog y sector yn gostwng ar yr un gyfradd; achoswyd y gostyngiad gan gyfrannau is o fyfyrwyr israddedig y DU, er y bu cynnydd ar lefel ôl-raddedig a addysgir dros yr un cyfnod. Roedd 27% o fyfyrwyr o'r tu allan i'r DU, sy'n uwch na chyfartaledd y DU o 20%.  Cynyddodd myfyrwyr o'r tu allan i'r DU 5% pt dros bum mlynedd, yn unol â thueddiadau'r sector, wedi'i ysgogi gan gynnydd mewn myfyrwyr lefel israddedig tramor; bu gostyngiadau (-17% pt) ar gyfer y farchnad ôl-raddedig a addysgir dramor cynradd dros y cyfnod hwn, a effeithiwyd yn fwy diweddar gan newidiadau polisi'r llywodraeth mewn perthynas â rheolau fisa yn 2024.




Y pynciau gyda'r cyfrannau uchaf o fyfyrwyr wedi'u cofrestru (> 10%) oedd: Gwyddorau Biolegol a chwaraeon; Pynciau cysylltiedig â meddygaeth; Busnes a rheolaeth; Seicoleg.


Roedd cyfrannau is (< 2%) wedi'u cofrestru yn y Cyfryngau, newyddiaduraeth a chyfathrebu; Peirianneg a thechnoleg; Meddygaeth a deintyddiaeth; Dylunio, a chelfyddydau creadigol a pherfformio.

Gwyddorau biolegol a chwaraeon sydd wedi cynyddu cyfrannau fwyaf dros y cyfnod o bum mlynedd hyd at 2023-24 (+5% pt), ac yna Busnes a rheolaeth (+3% pwynt); Cyfraith (+2% pt).

Astudiaethau iaith ac ardal sydd wedi lleihau cyfrannau fwyaf (-3% pt) dros y cyfnod o bum mlynedd, ac yna Pynciau cysylltiedig â meddygaeth (-2% pt); Amaethyddiaeth, bwyd ac astudiaethau cysylltiedig (-2% pt).


Mae'r cyrsiau y mae myfyrwyr wedi cofrestru arnynt yn cael eu categoreiddio i bynciau. Mae'r categori pwnc uchod yn seiliedig ar y fframwaith codio Dosbarthiad Pynciau Addysg Uwch (HECoS), a ddatblygwyd ac a reolir gan HESA i ddarparu dull cyson o ddosbarthu pynciau cenedlaethol. Mae codau pwnc HECoS yn cael eu grwpio yn ôl Hierarchaeth Agregu Gyffredin (CAH), o lefel uchel (CAH1) i lefel fwy gronynnog (CAH3). Mae'r pynciau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar CAH1.

# Nodwedd gwarchodedig: Rhyw





Cesglir y data hwn gan HESA, gofynnir y cwestiwn “beth yw eich rhyw” i fyfyrwyr gyda'r cofnodion dilys a ganlyn: Benyw; Gwryw; Arall; gwrthod gwybodaeth.


Yn gyffredinol, mae'r rhaniad rhwng myfyrwyr benywaidd a gwrywaidd ym Mangor wedi aros ar gyfartaledd o 60% a 40% dros y pum mlynedd diwethaf. Mae cyfran y myfyrwyr benywaidd ym Mangor ychydig yn uwch na chyfartaledd y DU o 57%.




Nid yw cyfrannau’r myfyrwyr sy’n nodi eu bod yn fenywaidd, neu’n wrywaidd yn amrywio’n sylweddol yn ôl lefel astudio’r myfyrwyr. Mae’r rhai sy’n nodi eu bod yn rhyw ‘arall’ yn fach iawn ac yn is nag 1%. Gwrthododd tua 1% o fyfyrwyr ddarparu'r wybodaeth. Nid yw’r ffigurau’n amrywio’n sylweddol yn sector y DU ar gyfer myfyrwyr israddedig neu ôl-raddedig a addysgir, ond mae cyfran y merched ar lefelau ôl-raddedig ymchwil yn is, sef 50%.




Roedd 57% o fyfyrwyr amser llawn yn fenywod, ychydig yn is na chyfartaledd y Brifysgol, ond yn cyd-fynd â chyfartaledd sector y DU. Roedd myfyrwyr benywaidd rhan-amser yn sylweddol uwch ar 70%, ac yn uwch na chyfartaledd y DU o 61%. Mae’r ffigwr rhan amser uwch yn bennaf oherwydd pynciau sydd wedi’u dominyddu’n draddodiadol gan fenywod, megis pynciau sy’n gysylltiedig â meddygaeth (gan gynnwys nyrsio a bydwreigiaeth), y Gwyddorau cymdeithasol, ac Addysg ac addysgu athrawon. Mae'r pynciau hyn yn tueddu i fod yn ddeniadol i fyfyrwyr benywaidd aeddfed, sy'n dychwelyd i addysg neu'n dilyn cyrsiau proffesiynol ôl-gymhwyso mewn meysydd sy'n gysylltiedig ag iechyd.





Roedd 63% o fyfyrwyr y DU yn fenywod, ychydig yn uwch na chyfartaledd y Brifysgol, ac yn uwch na chyfartaledd y DU o 58%. Arhosodd myfyrwyr benywaidd y DU yn gyson ym Mangor dros bum mlynedd. Mewn cyferbyniad, roedd 50% o fyfyrwyr y tu allan i'r DU yn fenywod, sy'n sylweddol is na chyfartaledd y Brifysgol, ac ychydig yn is na chyfartaledd y DU o 52%. Cynyddodd myfyrwyr benywaidd o’r tu allan i’r DU 12% pt ym Mangor dros bum mlynedd, yn erbyn gostyngiad o 3% ar draws y sector DU.

# Nodwedd gwarchodedig: Rhyw

| Pwnc | Benyw | Gwryw | Arall | Gwrthod ateb | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| amaethyddiaeth, bwyd ac astudiaethau cysylltiedig | 41.9% | 55.7% | 1.6% | 0.8% | 100% |
| astudiaethau hanesyddol, athronyddol a chrefyddol | 48.3% | 49.7% | 0.9% | 1.2% | 100% |
| busnes a rheolaeth | 42.7% | 57.0% | 0.2% | 0.1% | 100% |
| cyfrifiadura | 23.9% | 74.7% | 0.0% | 1.4% | 100% |
| cyfryngau, newyddiaduraeth a chyfathrebu | 47.9% | 50.7% | 0.0% | 1.4% | 100% |
| daearyddiaeth, astudiaethau daear ac amgylcheddol | 51.9% | 46.9% | 0.2% | 0.9% | 100% |
| dylunio, a chelfyddydau creadigol a pherfformio | 43.9% | 55.6% | 0.0% | 0.5% | 100% |
| gwyddorau biolegol a chwaraeon | 54.8% | 43.5% | 0.4% | 1.2% | 100% |
| gwyddorau cymdeithasol | 75.6% | 23.9% | 0.2% | 0.3% | 100% |
| iaith ac astudiaethau ardal | 67.1% | 30.1% | 0.4% | 2.4% | 100% |
| meddygaeth a deintyddiaeth | 72.6% | 27.4% | 0.0% | 0.0% | 100% |
| peirianneg a thechnoleg | 16.2% | 82.6% | 0.0% | 1.2% | 100% |
| pynciau sy'n gysylltiedig â meddygaeth | 82.3% | 17.5% | 0.1% | 0.2% | 100% |
| seicoleg | 75.2% | 24.0% | 0.3% | 0.6% | 100% |
| y gyfraith | 48.0% | 51.5% | 0.2% | 0.3% | 100% |
| addysg ac addysgu athrawon | 74.6% | 25.0% | 0.2% | 0.2% | 100% |


Gwelir cyfrannau uwch o fyfyrwyr benywaidd mewn pynciau sy'n gysylltiedig â meddygaeth, sy'n cynnwys nyrsio a chyrsiau gofal iechyd eraill.  Mae cyfrannau hefyd yn uchel yn y Gwyddorau Cymdeithasol, Seicoleg, Meddygaeth a deintyddiaeth (gan gynnwys cyrsiau hylendid deintyddol a gwyddoniaeth feddygol), ac Addysg ac addysgu athrawon. Mae llawer o'r rhain yn feysydd a ddominyddir yn draddodiadol gan fenywod. Mae cyfrannau o fyfyrwyr benywaidd yn arbennig o isel mewn Peirianneg a thechnoleg, a Chyfrifiadura, meysydd sydd yn draddodiadol yn tueddu i ddenu myfyrwyr gwrywaidd.

# Nodwedd gwarchodedig: Traws





Cesglir data ar gyfer myfyrwyr traws gan HESA mewn dwy ffordd: (i) dim ond yn yr Alban y cesglir statws trawsryweddol y myfyriwr (ii) cesglir y cwestiwn hunaniaeth o ran rhywedd ym mhob rhan o'r DU, y cwestiwn a ddefnyddir yma yw "a yw'r rhyw yr ydych yn uniaethu ag ef yr un fath â'ch rhyw wedi'i gofrestru adeg eich geni?" gyda'r cofnodion dilys a ganlyn: Ydi, Nac ydi, Gwell beidio â dweud. Roedd 95% o fyfyrwyr Prifysgol Bangor yn uniaethu â'r un rhyw â'r un a roddwyd iddynt adeg eu geni. Nododd 2% fod ganddynt ryw gwahanol, ac roedd yn well gan 3% o fyfyrwyr beidio ag ateb y cwestiwn.


Nid ydi ffigyrau Bangor wedi symyd llawer o ran hunaniaeth o ran rhywedd dros bum mlynedd. Sylwch hefyd nad yw ystadegau addysg uwch cenedlaethol ar gael ar gyfer hunaniaeth o ran rhywedd.




Pan fyddwn yn dadansoddi'r data yn ôl lefel astudio, gwelwn rai gwahaniaethau. Roedd llai o fyfyrwyr israddedig yn nodi eu bod o'r un rhyw â adeg eu geni (93%) o gymharu â chyfartaledd y Brifysgol, gyda lefelau uwch yn nodi ei fod yn wahanol (3%). Roedd 97% o fyfyrwyr ôl-raddedig a addysgir yn nodi bod nhw â'r un rhyw â adeg eu geni, sy'n uwch na chyfartaledd y Brifysgol, ac 1% yn uniaethu â rhyw arall. Er bod gan gyfrannau is o fyfyrwyr ôl-raddedig ymchwil yr un hunaniaeth o ran rhywedd (94%), roedd yn well gan lefelau uwch o'r myfyrwyr hyn beidio ag ateb y cwestiwn (5%).




Dywedodd 3% o fyfyrwyr amser llawn fod ganddynt ryw gwahanol, o gymharu â 2% o fyfyrwyr rhan-amser.





Roedd gan lefelau uwch o fyfyrwyr y DU hunaniaeth ryweddol wahanol (3%) o gymharu â myfyrwyr y tu allan i'r DU (1%).

# Nodwedd gwarchodedig: Traws


| Pwnc | Gwahanol i rywedd a neilltuwyd adeg geni | Yr un fath â'r rhywedd a neilltuwyd adeg geni | Gwell beidio â dweud | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| cysylltiedig | 1.6% | 93.9% | 4.5% | 100% |
| chrefyddol | 4.9% | 91.9% | 3.2% | 100% |
| busnes a rheolaeth | 1.1% | 96.4% | 2.5% | 100% |
| cyfrifiadura | 1.9% | 95.3% | 2.8% | 100% |
| cyfryngau, newyddiaduraeth a chyfathrebu | 2.9% | 92.9% | 4.3% | 100% |
| amgylcheddol | 4.0% | 91.3% | 4.7% | 100% |
| pherfformio | 3.9% | 94.1% | 2.0% | 100% |
| gwyddorau biolegol a chwaraeon | 5.0% | 90.9% | 4.2% | 100% |
| gwyddorau cymdeithasol | 0.6% | 97.9% | 1.5% | 100% |
| iaith ac astudiaethau ardal | 5.2% | 90.0% | 4.8% | 100% |
| meddygaeth a deintyddiaeth | 1.2% | 97.0% | 1.8% | 100% |
| peirianneg a thechnoleg | 2.4% | 94.6% | 3.0% | 100% |
| pynciau sy'n gysylltiedig â meddygaeth | 1.0% | 97.6% | 1.5% | 100% |
| seicoleg | 2.5% | 94.6% | 2.9% | 100% |
| y gyfraith | 2.4% | 95.7% | 1.9% | 100% |
| addysg ac addysgu athrawon | 0.5% | 97.8% | 1.7% | 100% |

Roedd lefelau'r myfyrwyr a oedd yn uniaethu â rhyw a oedd yn wahanol i'r hyn a neilltuwyd ar enedigaeth yn gymharol uchel yn y pynciau canlynol (>3%) Astudiaethau iaith ac ardal, y gwyddorau biolegol a chwaraeon, Astudiaethau Hanesyddol, Athronyddol a chrefyddol, Daearyddiaeth, astudiaethau daear ac amgylcheddol, a Dylunio, a'r celfyddydau creadigol a pherfformio.


# Nodwedd gwarchodedig: Cyfeiriadedd rhywiol





Cesglir y data hwn gan HESA, gofynnir i fyfyrwyr "pa un o'r canlynol ddisgrifiodd eich cyfeiriadedd rhywiol orau?", gyda'r cofnodion dilys a ganlyn: Deurywiol, Hoyw neu lesbiaidd, Heterorywiol neu syth, Cyfeiriadedd rhywiol arall, Gwell beidio â dweud . Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn nodi eu bod yn heterorywiol, gyda 14% yn dewis peidio ateb y cwestiwn. Roedd 10% yn ddeurywiol, gyda chyfrannau is yn nodi eu bod yn hoyw neu'n lesbiaidd, neu'n gyfeiriadedd rhywiol arall. Nid oedd llawer o newid yn ffigurau Bangor dros bum mlynedd. Sylwch nad yw ystadegau addysg uwch cenedlaethol ar gael ar gyfer cyfeiriadedd rhywiol..




Nododd 68% o fyfyrwyr israddedig eu bod yn heterorywiol. Roedd 12% yn ddeurywiol, a 4% yn uniaethu â chyfeiriadedd rhywiol arall, ffigurau uwch na chyfartaledd y Brifysgol. Roedd lefelau uwch o fyfyrwyr ôl-raddedig a addysgir yn heterorywiol, gyda niferoedd sylweddol is yn nodi eu bod yn ddeurywiol, hoyw neu lesbiaidd, neu arall. Roedd yn well gan lefelau arbennig o uchel (18%) o'r myfyrwyr hyn beidio ag ateb. Roedd myfyrwyr ôl-raddedig ymchwil heterorywiol ychydig yn uwch na chyfartaledd y Brifysgol, gyda lefelau tebyg yn nodi eu bod yn ddeurywiol, a lefelau uwch o fyfyrwyr hoyw neu lesbiaidd.




Roedd 68% o fyfyrwyr amser llawn yn heterorywiol, ychydig yn is na chyfartaledd y Brifysgol, gyda chyfrannau uwch o fyfyrwyr deurywiol (11%), a ffigurau tebyg ar gyfer hoyw neu lesbiaidd, neu arall. Dewisodd cyfran arbennig o uchel o fyfyrwyr amser llawn (15%) beidio ag ateb y cwestiwn. Roedd myfyrwyr heterorywiol rhan-amser yn sylweddol uwch na chyfartaledd y Brifysgol, sef 82%, gyda lefelau is o fyfyrwyr deurywiol (5%) a ffigurau tebyg ar gyfer hoyw neu lesbiaidd. Roedd cyfeiriadedd rhywiol arall yn isel, sef 1%.




Nododd 71% o fyfyrwyr yn y DU eu bod yn heterorywiol, ychydig yn uwch na chyfartaledd y Brifysgol, gyda myfyrwyr deurywiol ychydig yn uwch ar 11%. Roedd myfyrwyr a oedd yn hoyw neu'n lesbiaidd a chyfeiriadedd rhywiol arall ar lefelau tebyg. Roedd 67% o fyfyrwyr y tu allan i'r DU yn heterorywiol, yn is na chyfartaledd y Brifysgol, gyda lefelau is yn nodi eu bod yn ddeurywiol, yn hoyw neu'n lesbiaidd, neu'n gyfeiriadedd rhywiol arall. Dewisodd cyfran sylweddol o fyfyrwyr o'r tu allan i'r DU beidio ag ateb y cwestiwn.

# Nodwedd gwarchodedig: Cyfeiriadedd rhywiol

| Pwnc | Deurywiol | Hoyw neu lesbiaidd | Strêt neu heterorywiol | Cyfeiriadedd rhywiol arall | Gwell beidio â dweud | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| amaethyddiaeth, bwyd ac astudiaethau cysylltiedig | 6.1% | 2.4% | 69.1% | 3.3% | 19.1% | 100% |
| astudiaethau hanesyddol, athronyddol a chrefyddol | 16.6% | 4.1% | 59.3% | 4.7% | 15.4% | 100% |
| busnes a rheolaeth | 5.0% | 0.3% | 70.9% | 1.6% | 22.2% | 100% |
| cyfrifiadura | 8.3% | 1.4% | 66.4% | 2.6% | 21.3% | 100% |
| cyfryngau, newyddiaduraeth a chyfathrebu | 22.1% | 3.6% | 55.0% | 5.7% | 13.6% | 100% |
| daearyddiaeth, astudiaethau daear ac amgylcheddol | 14.2% | 2.1% | 60.6% | 3.5% | 19.6% | 100% |
| dylunio, a chelfyddydau creadigol a pherfformio | 12.7% | 1.5% | 67.3% | 2.9% | 15.6% | 100% |
| gwyddorau biolegol a chwaraeon | 16.5% | 4.6% | 60.7% | 5.1% | 13.1% | 100% |
| gwyddorau cymdeithasol | 7.2% | 3.0% | 77.9% | 1.4% | 10.5% | 100% |
| iaith ac astudiaethau ardal | 14.6% | 6.0% | 58.4% | 5.4% | 15.6% | 100% |
| meddygaeth a deintyddiaeth | 9.5% | 3.0% | 80.4% | 1.2% | 6.0% | 100% |
| peirianneg a thechnoleg | 4.2% | 2.4% | 71.3% | 1.8% | 20.4% | 100% |
| pynciau sy'n gysylltiedig â meddygaeth | 4.5% | 2.8% | 83.3% | 1.4% | 7.9% | 100% |
| seicoleg | 11.2% | 5.2% | 69.5% | 3.3% | 10.8% | 100% |
| y gyfraith | 5.5% | 1.7% | 77.9% | 0.7% | 14.2% | 100% |
| addysg ac addysgu athrawon | 5.0% | 1.2% | 80.2% | 1.2% | 12.4% | 100% |

Roedd patrymau'n amrywio o'u dadansoddi fesul pwnc.


Roedd cyfrannau uchel o’r myfyrwyr (>10%) a nododd eu bod yn ddeurywiol yn y Cyfryngau, newyddiaduraeth a chyfathrebu, Astudiaethau hanesyddol, athronyddol a chrefyddol, Gwyddorau Biolegol a chwaraeon, Astudiaethau iaith ac ardal, Daearyddiaeth, pwnc astudiaethau daear ac amgylcheddol, Dylunio, a’r celfyddydau creadigol a pherfformio, a Seicoleg.

Roedd y myfyrwyr a oedd yn nodi eu bod yn hoyw neu'n lesbiaidd ar eu huchaf (>5%) mewn astudiaethau iaith ac ardal, a Seicoleg.  Roedd y cyfrannau'n gymharol isel yn y rhan fwyaf o achosion.


Roedd y myfyrwyr a nododd eu bod yn gyfeiriadedd rhywiol arall hefyd yn gyffredinol isel o ran cyfrannedd ond roeddent ar eu huchaf (>5%) yn y Cyfryngau, newyddiaduraeth a chyfathrebu, astudiaethau iaith ac ardal, a gwyddorau Biolegol a chwaraeon.

Roedd myfyrwyr heterorywiol neu syth yn gyffredinol yn uchel mewn cyfrannedd, ac yn arbennig o uchel (>80%) mewn Pynciau cysylltiedig â meddygaeth, Addysg ac addysgu athrawon, a Meddygaeth a deintyddiaeth.

# Nodwedd gwarchodedig: Anabledd





Cesglir y data hwn gan HESA, a gofynnir i fyfyrwyr "a oes gennych chi nam, cyflwr iechyd, neu wahaniaeth dysgu sy'n cael effaith sylweddol ar eich gallu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd ac sydd wedi para, neu y disgwylir iddo bara, o leiaf 12 mis?". Yna gallant ddewis math penodol o gyflwr, cofnodi dim anabledd, neu ddewis peidio ag ateb y cwestiwn.   Datgelodd 25% o fyfyrwyr ym Mangor anabledd, sy'n sylweddol uwch na chyfartaledd y DU o 15%. Cynyddodd cyfradd datgeliadau anabledd ym Mangor 1% pt dros bum mlynedd, gyda chyfraddau cenedlaethol yn cynyddu i raddau uwch (+3% pt).





Roedd gan 32% o fyfyrwyr israddedig anabledd, yn uwch na chyfartaledd y Brifysgol, ac yn uwch na chyfartaledd y DU o 17%.  Gostyngodd ffigurau Bangor 2% pt dros bum mlynedd, gyda'r sector yn cynyddu 4% pt.

Roedd 13% o fyfyrwyr ôl-raddedig a addysgir yn anabl, yn uwch na chyfartaledd y DU o 10%.   Bu gostyngiad o 11% pt yn ffigurau Bangor dros bum mlynedd, gyda chyfartaleddau'r DU yn aros yn gyson.  Roedd gan 22% o fyfyrwyr ôl-raddedig ymchwil anabledd, sy'n uwch na chyfartaledd y DU o 12%. Gostyngodd ffigurau Bangor 4% pt dros bum mlynedd, o'i gymharu â chynnydd o 6% pt ar draws sector y DU.




Datgelodd 26% o fyfyrwyr amser llawn anabledd, sy'n is na chyfartaledd y DU o 15%.  Gostyngodd y ffigur hwn gan 7% pt dros bum mlynedd, o'i gymharu â chynnydd o 2% pt ar gyfer cyfartaleddau'r DU.

Roedd gan 21% o fyfyrwyr rhan-amser anabledd, o gymharu â chyfartaledd DUL o 16%.  Cynyddodd ffigwr Bangor 2%  pt dros bum mlynedd, gyda'r sector yn cynyddu'n gyflymach (+4% pt).




Roedd gan fyfyrwyr y DU gyfradd arbennig o uchel o ddatgelu anabledd ar 32%, o gymharu â chyfartaledd y DU o 18%.  Gostyngodd ffigurau Bangor 4% pt dros bum mlynedd, gyda sector y DU yn cynyddu 4% pts.


Roedd cyfraddau anabledd ar gyfer myfyrwyr o'r tu allan i'r DU ym Mangor yn isel ar 6%, ond dim ond ychydig yn uwch na chyfartaledd y DU o 5%. Bu gostyngiad o 12% pt yng nghyfraddau anabledd Bangor dros bum mlynedd, gyda sector y DU yn cynyddu 1% pt.

# Nodwedd gwarchodedig: Anabledd

| Pwnc | Anabledd | Dim anabledd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| addysg ac addysgu athrawon | 23.2% | 76.8% | 100% |
| amaethyddiaeth, bwyd ac astudiaethau cysylltiedig | 31.7% | 68.3% | 100% |
| astudiaethau hanesyddol, athronyddol a chrefyddol | 6.3% | 93.7% | 100% |
| busnes a rheolaeth | 20.6% | 79.4% | 100% |
| cyfrifiadura | 33.6% | 66.4% | 100% |
| cyfryngau, newyddiaduraeth a chyfathrebu | 31.6% | 68.4% | 100% |
| daearyddiaeth, astudiaethau daear ac amgylcheddol | 28.8% | 71.2% | 100% |
| dylunio, a chelfyddydau creadigol a pherfformio | 37.9% | 62.1% | 100% |
| gwyddorau biolegol a chwaraeon | 23.2% | 76.8% | 100% |
| gwyddorau cymdeithasol | 35.7% | 64.3% | 100% |
| iaith ac astudiaethau ardal | 29.8% | 70.2% | 100% |
| meddygaeth a deintyddiaeth | 10.8% | 89.2% | 100% |
| peirianneg a thechnoleg | 24.3% | 75.7% | 100% |
| pynciau sy'n gysylltiedig â meddygaeth | 30.0% | 70.0% | 100% |
| seicoleg | 17.8% | 82.2% | 100% |
| y gyfraith | 16.3% | 83.7% | 100% |


Gwelwyd cyfraddau uchel o anabledd datgeledig o 30% neu uwch yn y pynciau canlynol: Gwyddorau biolegol a chwaraeon, Astudiaethau iaith ac ardal, Daearyddiaeth, astudiaethau daear ac amgylcheddol, Astudiaethau hanesyddol, athronyddol a chrefyddol, y Cyfryngau, newyddiaduraeth, a chyfathrebu, a Seicoleg. Gwelwyd cyfraddau anabledd arbennig o isel mewn Busnes a rheolaeth (6.3%); mae marchnad ryngwladol gref ar gyfer y pwnc hwn, ac mae’r ffigur o 6% yn cyd-fynd â’r gyfradd gyffredinol ar gyfer myfyrwyr nad ydynt yn dod o’r DU.

# Nodwedd gwarchodedig: Ethnigrwydd neu hil





Cesglir y data hwn gan HESA ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o'r DU yn unig; am y rheswm hwn, nid yw'n bosibl cyflwyno'r wybodaeth ar gyfer myfyrwyr y tu allan i'r DU. Gofynnir y cwestiwn i fyfyrwyr "beth yw eich ethnigrwydd neu grŵp ethnig?" a gallant ddewis o restr o grwpiau ethnig gronynnog neu ddewis peidio ag ateb y cwestiwn. Rydym wedi grwpio myfyrwyr BAME (Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig) i allu cyhoeddi ffigurau, yn hytrach na golygu niferoedd bach, at ddibenion yr adroddiad hwn. Rydym yn cydnabod bod sawl mater yn gynhenid wrth grwpio unigolion i gategorïau mwy fel 'BAME', ac fel rhan o'n gwaith Siarter Cydraddoldeb Hiliol, rydym ar hyn o bryd yn ystyried terminoleg amgen.

Nododd 8% o fyfyrwyr y DU ym Mangor eu bod yn ddu, Asiaidd neu o leiafrifoedd ethnig, sy'n sylweddol is na chyfartaledd y DU o 28%. Arhosodd ffigurau Bangor yn gyson dros bum mlynedd, tra bod cyfartaleddau'r DU wedi cynyddu 4% pt.




Roedd y gyfran uchaf o fyfyrwyr a nododd eu bod yn ddu, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig yn astudio ar lefelau israddedig ac ôl-raddedig a addysgir, yn unol â chyfartaledd y Brifysgol o 8%. Roedd cyfartaleddau'r DU ar gyfer y lefelau astudio hyn tua 28%. Newidiadau dros bum mlynedd i Fangor a chyfartaleddau'r sector yn cyd-fynd â'r darlun cyffredinol a nodir uchod.

Nododd 6% o fyfyrwyr ôl-raddedig ymchwil ym Mangor eu bod yn ddu, yn Asiaidd neu o leiafrifoedd ethnig, o gymharu â chyfartaledd y DU o 21%. Gostyngodd ffigwr Bangor 1% pt dros bum mlynedd, o'i gymharu â chynnydd o 3% pt yng nghyfartaledd sector y DU.




Nododd 9% o fyfyrwyr amser llawn eu bod yn ddu, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig ym Mangor, cynnydd o 1% pt dros bum mlynedd. Roedd cyfartaledd sector y DU o 29% wedi cynyddu 4% pt dros bum mlynedd.


Nododd 7% o fyfyrwyr rhan-amser ym Mangor eu bod yn ddu, yn Asiaidd neu o leiafrifoedd ethnig, o gymharu â chyfartaledd sector y DU o 20%. Cynyddodd ffigwr Bangor 2% pt dros bum mlynedd, gyda sector y DU yn cynyddu 3% pt.

# Nodwedd gwarchodedig: Ethnigrwydd neu hil


| Pwnc | BAME | Gwyn | Anhysbys | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| amaethyddiaeth, bwyd ac astudiaethau cysylltiedig | 6.8% | 89.5% | 3.7% | 100% |
| astudiaethau hanesyddol, athronyddol a chrefyddol | 4.1% | 94.9% | 1.0% | 100% |
| busnes a rheolaeth | 19.6% | 71.6% | 8.8% | 100% |
| cyfrifiadura | 13.5% | 81.2% | 5.3% | 100% |
| cyfryngau, newyddiaduraeth a chyfathrebu | 8.6% | 90.5% | 1.0% | 100% |
| daearyddiaeth, astudiaethau daear ac amgylcheddol | 6.3% | 92.3% | 1.4% | 100% |
| dylunio, a chelfyddydau creadigol a pherfformio | 8.9% | 89.2% | 1.9% | 100% |
| gwyddorau biolegol a chwaraeon | 6.3% | 92.2% | 1.5% | 100% |
| gwyddorau cymdeithasol | 4.6% | 94.6% | 0.8% | 100% |
| iaith ac astudiaethau ardal | 7.2% | 89.1% | 3.7% | 100% |
| meddygaeth a deintyddiaeth | 22.4% | 73.0% | 4.6% | 100% |
| peirianneg a thechnoleg | 4.9% | 93.9% | 1.2% | 100% |
| pynciau sy'n gysylltiedig â meddygaeth | 9.0% | 89.4% | 1.7% | 100% |
| seicoleg | 12.8% | 85.5% | 1.7% | 100% |
| y gyfraith | 6.3% | 92.4% | 1.3% | 100% |
| addysg ac addysgu athrawon | 3.2% | 95.7% | 1.1% | 100% |

Ar lefel pwnc, roedd cyfrannau uwch o fyfyrwyr (>10%) a nododd eu bod yn ddu, yn Asiaidd neu o leiafrifoedd ethnig mewn Meddygaeth a deintyddiaeth, Busnes a rheolaeth, Cyfrifiadura, a Seicoleg. Roedd lefelau arbennig o isel (<5%) mewn Addysg ac addysguathrawon, Gwyddorau Cymdeithasol, Astudiaethau hanesyddol, athronyddol a chrefyddol, a Pheirianneg a thechnoleg.


# Nodwedd gwarchodedig: Crefydd neu gred




Cesglir y data hwn gan HESA, a gofynnir y cwestiwn i fyfyrwyr "beth yw eich crefydd neu gred?", yna gallant ddewis o blith nifer o grefyddau neu gredoau neu ddewis peidio ag ateb y cwestiwn. Dewisodd dros hanner myfyrwyr Bangor ddim crefydd, gyda 22% yn dewis Cristnogaeth. Dewisodd 10% Fwslimaidd, gyda lefelau is ar draws y categorïau sy'n weddill. Dewisodd 6% beidio ag ateb y cwestiwn. Mae ffigurau Bangor wedi aros yn weddol gyson dros bum mlynedd. Sylwch nad yw ystadegau addysg uwch cenedlaethol ar gael ar gyfer crefydd.





Nid oedd gan y rhan fwyaf o israddedigion unrhyw grefydd (63%), roedd 21% yn Gristnogion, gyda lefelau isel iawn ar draws categorïau eraill. Roedd lefelau is o fyfyrwyr ôl-raddedig a addysgir heb unrhyw grefydd (30%), gyda chyfrannau cymharol uchel (23%) yn nodi eu bod yn Fwslimiaid neu'n Gristnogion. Nid oedd gan 45% o fyfyrwyr ôl-raddedig ymchwil unrhyw grefydd, roedd 28% yn Gristnogion, a lefelau isel mewn categorïau eraill.




Nid oedd gan dros hanner y myfyrwyr amser llawn unrhyw grefydd, yn unol â chyfartaledd y Brifysgol. Roedd 20% yn Gristnogion, a 12% yn Fwslimiaid, gyda chategorïau eraill yn is na 10%. Roedd lefelau uwch o fyfyrwyr rhan-amser heb unrhyw grefydd (53%), gyda dros draean yn dweud eu bod yn Gristnogion.

# Nodwedd gwarchodedig: Crefydd neu gred





Nid oedd gan 63% o fyfyrwyr y DU unrhyw grefydd, sy'n sylweddol uwch na chyfartaledd y Brifysgol. Roedd 23% yn Gristnogion, gyda lefelau is ar draws categorïau eraill. Nid oedd gan 18% o fyfyrwyr o'r tu allan i'r DU unrhyw grefydd, sy'n sylweddol is na chyfartaledd y Brifysgol. Nododd 34% o fyfyrwyr y tu allan o'r DU eu bod yn Fwslimaidd, 18% yn Gristnogion, ac 16% yn Hindŵaidd.

| Pwnc | Unrhyw grefydd neu gred arall | Bwdhaidd | Cristion | Hindu | Luddew | Mwslemaidd | Dim crefydd | Sikh | Gwell beidio â dweud | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| addysg ac addysgu athrawon | 1.2% | 0.9% | 33.7% | 0.5% | 0.0% | 11.9% | 46.4% | 0.7% | 4.8% | 100% |
| cysylltiedig | 6.1% | 1.6% | 15.4% | 3.7% | 0.0% | 7.7% | 51.6% | 0.0% | 13.8% | 100% |
| chrefyddol | 6.4% | 1.2% | 26.7% | 1.5% | 0.9% | 2.6% | 51.5% | 0.3% | 9.0% | 100% |
| busnes a rheolaeth | 0.5% | 1.2% | 15.9% | 21.3% | 0.1% | 28.6% | 21.7% | 7.2% | 3.5% | 100% |
| cyfrifiadura | 1.7% | 0.5% | 15.8% | 8.3% | 0.2% | 20.8% | 39.5% | 5.4% | 7.8% | 100% |
| cyfryngau, newyddiaduraeth a chyfathrebu | 2.9% | 0.0% | 20.0% | 0.7% | 1.4% | 7.9% | 58.6% | 0.0% | 8.6% | 100% |
| amgylcheddol | 2.6% | 1.2% | 13.0% | 2.4% | 0.0% | 3.1% | 70.5% | 0.5% | 6.8% | 100% |
| pherfformio | 5.9% | 2.9% | 31.2% | 0.0% | 0.0% | 1.5% | 52.7% | 0.0% | 5.9% | 100% |
| gwyddorau biolegol a chwaraeon | 3.9% | 0.4% | 15.7% | 1.1% | 0.2% | 1.1% | 70.4% | 0.1% | 7.0% | 100% |
| gwyddorau cymdeithasol | 1.7% | 0.9% | 25.0% | 2.7% | 0.0% | 13.7% | 52.0% | 0.3% | 3.8% | 100% |
| iaith ac astudiaethau ardal | 3.8% | 0.2% | 26.0% | 0.2% | 0.2% | 7.4% | 51.0% | 0.4% | 10.8% | 100% |
| meddygaeth a deintyddiaeth | 3.6% | 1.8% | 30.4% | 1.8% | 0.0% | 10.1% | 45.8% | 0.6% | 6.0% | 100% |
| peirianneg a thechnoleg | 1.8% | 0.0% | 18.6% | 3.6% | 0.0% | 32.9% | 40.1% | 0.0% | 3.0% | 100% |
| pynciau sy'n gysylltiedig â meddygaeth | 2.0% | 0.5% | 32.2% | 1.8% | 0.0% | 2.9% | 54.8% | 0.1% | 5.6% | 100% |
| seicoleg | 3.8% | 2.6% | 21.4% | 2.9% | 0.1% | 5.1% | 54.6% | 0.3% | 9.3% | 100% |
| y gyfraith | 1.0% | 0.3% | 23.7% | 0.5% | 0.0% | 20.3% | 48.3% | 0.2% | 5.6% | 100% |

Nododd dros 70% o fyfyrwyr y gwyddorau Biolegol a chwaraeon, a Daearyddiaeth, astudiaethau daear ac amgylcheddol nad oedd ganddynt unrhyw gred grefyddol.


Roedd cyfrannau’r myfyrwyr a nododd eu bod yn Gristnogion dros 20% mewn deg pwnc allan o 16.

Roedd cyfrannau'r myfyrwyr a uniaethodd â'r grefydd Hindŵaidd yn arbennig o uchel (21%) mewn Busnes a rheolaeth. Roedd dros 20% o fyfyrwyr yn Fwslimiaid mewn Peirianneg a thechnoleg, Busnes a rheolaeth, Cyfrifiadura, a'r Gyfraith. Roedd myfyrwyr uniaethu â chrefyddau neu gredoau Sikhaidd neu Fwdhaidd yn arbennig o isel ar draws y rhan fwyaf o byncia, sef 1% ar gyfartaledd. Roedd myfyrwyr uniaethu â'r grefydd Iddewig yn is ar draws pynciau, sef 0.2% ar gyfartaledd.





Mae data a gesglir gan HESA ar ddyddiad geni myfyrwyr a dyddiad dechrau eu cwrs yn eu galluogi i gyfrifo oedran y myfyriwr pan fydd yn dechrau ar y cwrs. Mae'r diffiniad o fyfyrwyr aeddfed ac ifanc yn amrywio rhwng lefelau astudio. Diffinnir israddedigion ifanc fel rhai o dan 21 oed ar fynediad i'r cwrs, ac yn aeddfed fel 21 a throsodd. Diffinnir ôl-raddedigion ifanc fel rhai o dan 25 oed ar fynediad i'r cwrs, ac aeddfed fel 25 a throsodd. Diffiniwyd 53% o fyfyrwyr Bangor fel myfyrwyr ifanc, gyda 47% yn rhai aeddfed.


Ar hyn o bryd, nid yw ystadegau addysg uwch cenedlaethol ar gael ar gyfer oedran pan ddechreuant.




Mae'r cyfrannau uchaf o fyfyrwyr aeddfed yn astudio ar lefel ôl-raddedig a addysgir, ac ar 74% mae'n sylweddol uwch na chyfartaledd y Brifysgol. Gwelir lefelau uchel hefyd ar lefel ôl-raddedig ymchwil. Mae 30% o fyfyrwyr israddedig yn aeddfed, sy'n sylweddol is na chyfartaledd y Brifysgol.




Yn ôl y disgwyl efallai, mae cyfrannau arbennig o uchel o fyfyrwyr rhan-amser (90%) yn y categori oedran aeddfed. Ar gyfer myfyrwyr amser llawn, mae hyn yn gostwng i 38%.




Mae 41% o fyfyrwyr y DU yn aeddfed, yn is na chyfartaledd y Brifysgol. Mae 61% o fyfyrwyr y tu allan o'r DU yn aeddfed, sydd yn sylweddol uwch na chyfartaledd y brifysgol. Mae mwyafrif y myfyrwyr aeddfed y tu allan o'r DU yn astudio ar lefelau ôl-raddedig a addysgir, gyda llawer yn astudio ar gyfer meistr dysgu o bell neu gymhwyster MBA mewn pynciau busnes.

# Nodwedd gwarchodedig: Oed

| Pwnc | Aeddfed | Ifanc | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| amaethyddiaeth, bwyd ac astudiaethau cysylltiedig | 69.9% | 30.1% | 100% |
| astudiaethau hanesyddol, athronyddol a chrefyddol | 29.1% | 70.9% | 100% |
| busnes a rheolaeth | 60.4% | 39.6% | 100% |
| cyfrifiadura | 49.2% | 50.8% | 100% |
| cyfryngau, newyddiaduraeth a chyfathrebu | 29.3% | 70.7% | 100% |
| daearyddiaeth, astudiaethau daear ac amgylcheddol | 26.4% | 73.6% | 100% |
| dylunio, a chelfyddydau creadigol a pherfformio | 21.0% | 79.0% | 100% |
| gwyddorau biolegol a chwaraeon | 15.3% | 84.7% | 100% |
| gwyddorau cymdeithasol | 48.6% | 51.4% | 100% |
| iaith ac astudiaethau ardal | 39.1% | 60.9% | 100% |
| meddygaeth a deintyddiaeth | 47.0% | 53.0% | 100% |
| peirianneg a thechnoleg | 54.5% | 45.5% | 100% |
| pynciau sy'n gysylltiedig â meddygaeth | 66.7% | 33.3% | 100% |
| seicoleg | 53.8% | 46.2% | 100% |
| y gyfraith | 58.9% | 41.1% | 100% |
| addysg ac addysgu athrawon | 62.4% | 37.6% | 100% |

Mae'r cyfrannau uchaf o fyfyrwyr aeddfed (>60%) mewn Amaethyddiaeth, bwyd ac astudiaethau cysylltiedig (mae llawer o'r rhain ar lwybrau dysgu o bell), Pynciau cysylltiedig â meddygaeth (yn dilyn cyrsiau proffesiynol ôl-gymhwyso mewn meysydd cysylltiedig ag iechyd), Busnes a rheolaeth (mae llawer ar Radd Meistr neu MBA ar-lein), ac Addysg ac addysgu (cymwysterau addysgu ôl-raddedig). Mae'r ffigurau isaf yn y gwyddorau Biolegol a chwaraeon, sef 15%.